# Y DDOLEN

## TEULUOEDD WEDI EU HEFFEITHIO GAN GARCHARIAD

## Croeso ...

Croeso i rifyn cyntaf y newyddlen hon, sy'n ceisio amlygu'r materion sy'n wynebu plant a theuluoedd yng ngogledd Cymru sydd ag aelod o'r teulu yn y carchar. Credir bod nifer sylweddol o blant a theuluoedd gogledd Cymru wedi eu heffeithio ond, yn aml iawn, mae natur ddiamddiffyn y teuluoedd hyn a'r heriau sydd yn eu hwynebu yn cael eu hanwybyddu, ac i ryw raddau maen nhw'n anweledig ac yn garcharorion cudd.

Nod y newyddlen hon yw codi ymwybyddiaeth o'u hanghenion a'r problemau penodol sydd yn eu hwynebu er mwyn i ni, fel cyrff proffesiynol ac asiantaethau, ymgymryd â gwaith ataliol a darparu mwy o gefnogaeth a gwasanaethau wedi eu targedu ar eu cyfer.

## Sut mae cael aelod o'r teulu dan glo yn effeithio ar blant a theuluoedd?

O'u cymharu â'u cyfoedion, mae plant sydd ag aelod o'r teulu yn y carchar yn wynebu pwysau sylweddol a phroblemau emosiynol yn ystod cyfnod y carchariad ac maen nhw'n fwy tebygol o gael canlyniadau gwael ac wynebu bywydau tlawd a niweidiol. Mae'r fideo byr hwn yn amlygu stori un ferch ac effaith carchariad ei llystad arni https://www.prisonadvice.org.uk
Hefyd: http://www.barnardos.org.uk

Mae troseddau sy'n pontio'r cenedlaethau yn broblem fawr: canfu astudiaeth bwysig fod 65% o fechgyn sydd â thad yn y ddalfa yn mynd yn eu blaenau i droseddu. Gweler mwy: https://vimeo.com Mae carcharu mam hefyd yn cael effaith barhaol ar blant, a dim ond 5% o blant sydd â mam yn y carchar sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain. Yn arwyddocaol, mae'r holl ferched o ogledd Cymru sydd yn y ddalfa wedi eu cadw dan glo yn Lloegr.

Ar y cyfan mae teuluoedd yn fwy tebygol o brofi tlodi a dyled, a theimlo eu bod yn cael eu difrïo gan y gymdeithas; mae'r plant hefyd yn tueddu i deimlo'n fwy unig yn yr ysgol. Mae hyn hefyd yn effeithio ar blant a theuluoedd sydd â rhiant neu aelod o'r teulu mewn rhan arall o'r system cyfiawnder troseddol, ac nid yn y carchar yn unig.

## YN Y RHIFYN HWN:


Sut mae cael aelod o'r teulu dan glo yn effeithio ar blant a theuluoedd?

'Rhieni yn y Carchar' fel Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod

Pwysigrwydd Rhwymau Teuluol ar gyfer Pobl yn y Ddalfa

Prosiect Cydweithrediadol Gogledd Cymru o Gymorth i Deuluoedd

Rhwymau Teuluol wrth Galon Diwygio Carchardai

Gwaith Teulu CEM Berwyn




Mae'r newyddlen hon wedi cael ei pharatoi ar ran Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru, Bwrdd Cynllunio Ardal a CEM Berwyn

# Plant a Theuluoedd wedi eu Heffeithio gan Garchariad:
## Grŵp 'Cudd'

Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod gan 200,000 o blant yng Nghymru a Lloegr riant yn y carchar; dwywaith y ffigwr ar gyfer plant yr effeithir arnyn nhw gan ysgariad. Yn anffodus nid oes mesurydd swyddogol ar gyfer nodi'r plant a'r teuluoedd hyn, ac ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd o'u hanghenion penodol a phrin dim cefnogaeth systematig. Yn aml iawn mae ansicrwydd o'r fath yn golygu nad yw'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallan nhw elwa arno ar gael iddyn nhw. Maen nhw hefyd yn llai tebygol o ddatgelu eu hunain oherwydd y stigma cymdeithasol a'r bwlio, ac felly maen nhw'n cuddio rhag gwasanaethau lleol. Darllenwch drafodaeth a gafwyd yn ddiweddar ym Mhalas San Steffan: https://www.theyworkforyou.com

Fodd bynnag, mae ffynonellau swyddogol yn nodi bod 7% o blant yn profi 'riant' yn y carchar yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar y sail hon, mae'n bosibl bod oddeutu 7,105 o blant oedran ysgol yng ngogledd Cymru wedi eu heffeithio.

## 'Rhieni yn y Carchar' Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod

Wyddoch chi fod cael 'rhiant yn y carchar' yn un o'r 11 Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod a nodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer oedolion Cymru (2018)?

Fel straenachoswr yn ystod plentyndod gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith hirdymor wrth i blant dyfu i fyny'n oedolion, a gall hefyd effeithio ar les meddyliol, corfforol a chymdeithasol. Mae'r ddwy flynedd gyntaf, gan gynnwys beichiogrwydd (neu'r Mil Diwrnod Cyntaf) yn flynyddoedd allweddol iawn i ddatblygiad plant. Os yw unigolyn yn profi pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, dengys ymchwil bod yr unigolyn hwnnw 20 gwaith yn fwy tebygol o gael ei garcharu. Darllenwch fwy: http://bit.ly/22zwYGs

Felly, sefydlwyd canolfan gefnogi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Cymru Well). Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at: ace@wales.nhs.uk.

Mae'r ffilm fer hon yn amlygu sut y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod niweidio iechyd einioes yn ogystal ag amlygu'r asiantaethau gwahanol sy'n gallu atal cyflyrau iechyd o'r fath a chefnogi pobl sydd wedi eu heffeithio: http://www.aces.me.uk/in-wales/.

### Mae plant gyda rhiant yn y carchar:

- ddwywaith mor debygol o brofi problemau ymddygiad ac iechyd meddwl
- yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol ac yn fwy tebygol o gael eu gwahardd
- deirgwaith yn fwy tebygol o gyflawni neu ddioddef o drais domestig
- bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddibynnol ar gyffuriau
- yn costio deg gwaith yn fwy i bwrs y wlad erbyn eu pen-blwydd yn 28 oed



### OEDDET TI'N GWYBOD?

Pob wythnos mae 500 o blant yn mynd i CEM Parc ym Mhen-y-Bont ar Ogwr i weld aelod o'u teulu




# PWYSIGRWYDD RHWYMAU TEULUOL AR GYFER POBL YN Y DDALFA

Mae perthynas gefnogol gydag aelodau o'r teulu yn rhoi ystyr a chymhelliant i'r rheiny yn y ddalfa, ac yn gymorth iddyn nhw wrth adsefydlu ac ailsefydlu.

Gweler mwy:
https://www.dropbox.com

Canfu arolwg yn 2008 fod troseddwyr sydd wedi derbyn o leiaf un ymweliad yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa 39% yn llai tebygol o aildroseddu o'u cymharu â'r rheiny na chafodd ymweliad. Ar hyn o bryd mae 44% o oedolion yn cael eu canfod yn euog eto o fewn blwyddyn o gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, yn aml iawn mae teuluoedd yn cael eu hatal rhag ymweld oherwydd stigma, diffyg cyfleusterau croesawgar yn y carchar ac ofn ac ansicrwydd o'r hyn sydd i'w disgwyl. Mae modd gwneud llawer iawn yn y carchar i newid hyn; mae carchardai fel CEM Parc yn ne Cymru yn arwain y ffordd, yn ogystal â rhai carchardai yn Lloegr a'r Alban. Darllen mwy am waith CEM Parc a Phrofiad yr Alban:

https://www.channel4.com
https://www.youtube.com

## OEDDET TI'N GWYBOD?

- Amcangyfrifir bod gan 200,000 o blant yng Nghymru a Lloegr riant yn y carchar
- Mae oddeutu 35,000 o blant wedi eu heffeithio gan frawd neu chwaer yn y carchar
- Mae 65% o fechgyn sydd â thad yn y ddalfa yn mynd yn eu blaenau i droseddu
- Mae gan 59% o ddynion sydd yn y carchar blant dan 18 oed

*Prosiect 'Cefnogi Teuluoedd Parc' CEM Parc Bridgend*

# Adolygiad Pwysig 'Arglwydd Farmer' yn rhoi Rhwymau Teuluol wrth wraidd Diwygio Carchardai

Dengys ymchwil bod cysylltiadau agos rhwng carcharorion ac aelodau allweddol o'u teulu yn gallu lleihau'r perygl o aildroseddu yn sylweddol.

Mae aildroseddu yn costio oddeutu £15 biliwn y flwyddyn i'r gymdeithas. Felly, comisiynwyd astudiaeth bwysig gan Lywodraeth y DU i ymchwilio i sut y gall cysylltu carcharorion gyda'u teuluoedd wella lles troseddwyr a lleihau nifer yr achosion o aildroseddu. Daeth adroddiad mis Awst 2017 gan Arglwydd Farmer i'r casgliad bod rhwymau teuluol yn "llinyn aur" i helpu pobl droi cefn ar droseddu ac i helpu teuluoedd ymdopi. Mae strategaeth bellach yn cael ei pharatoi i weithredu'r argymhellion.

Darllenwch yr adroddiad yn:

https://www.gov.uk



# Prosiect Rhanbarthol Arloesol i Helpu Teuluoedd wedi eu Heffeithio gan Garchariad

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu'r teuluoedd hyn ac i gymell newid i annog gwaith ataliol a chefnogaeth wedi ei thargedu, mae deg corff cyhoeddus a CEM Berwyn wedi penodi tîm bychan rhanbarthol a thrawsbynciol; mae hyn yn rhan o waith Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru.

http://www.northwales-pcc.gov.uk

Mae dau swyddog yn y tîm: Sara Kettle a Catherine Pritchard, a fydd yn gweithio gyda phartneriaid. Mae Grŵp Llywio wedi ei sefydlu ar gyfer y rhaglen ac i helpu'r swyddogion ymgymryd â'u gwaith. Os hoffech chi gysylltu â Sara neu Catherine ynglŷn â'u gwaith, ac os fedrwch chi gefnogi neu ddarparu gwybodaeth, cysylltwch â nhw ar: sara.kettle@wrexham.gov.uk/ 01978 292453 neu catherine.pritchard@wrexham.gov.uk / 01978 292444.

Efallai eich bod chi'n casglu gwybodaeth am nifer y plant neu deuluoedd o ogledd Cymru sydd wedi eu heffeithio gan y mater hwn? Neu efallai bod gennych chi ddealltwriaeth benodol o'u hanghenion yn sgil y gwaith rydych chi'n ei wneud o ddydd i ddydd? Efallai eich bod chi'n darparu cefnogaeth i deuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan garchariad? Os felly, yna fe hoffan nhw glywed oddi wrthych

## CEM BERWYN, WRECSAM



## Dod â'r Rheiny yn y Ddalfa yn nes at eu Teuluoedd

*CEM Berwyn: Argraff gyntaf ymwelwyr o'r carchar – y dderbynfa a'r neuadd ymweld*

Agorodd CEM Berwyn ym mis Chwefror 2017, a hwn yw'r unig garchar yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal a datblygu rhwymau teuluol ar gyfer y dynion o ogledd Cymru sydd yn y ddalfa.

Mae CEM Berwyn yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi'r dynion yn eu gofal i adfer, cynnal a gwella eu perthynas gyda'u teulu yn ystod eu dedfryd o garchar, os yw hynny'n bosibl. Yn ôl Joanna Marston, Pennaeth Lleihau Aildroseddu: "Mae dynion sydd â pherthynas gadarnhaol a chefnogol gyda'u teulu yn llawer llai tebygol o aildroseddu ar ôl cael eu rhyddhau, ac mae dynion sydd â chyswllt cadarnhaol gyda'u teulu hefyd yn fwy tebygol o ymddwyn yn well."

Mae yna gymuned deuluol arbenigol yn y Berwyn o'r enw 'Teuluoedd yn Gyntaf' sydd â lle i 88 o ddynion ac arnyn nhw eisiau adfer, cynnal neu wella eu perthynas gyda'u teulu, boed gyda phlant, rhieni, brodyr a chwiorydd neu bartner ac ati. Mae dynion 'Teuluoedd yn Gyntaf' yn cymryd rhan mewn cyrsiau teuluol ac ymyriadau yn ogystal â chael eu blaenoriaethu pan fo cyrsiau teuluol/rhianta eraill yn cael eu cynnal yn y coleg neu mewn adran arall o'r carchar. Bydd rhagor o wybodaeth am waith teuluol CEM Berwyn mewn newyddlenni yn y dyfodol.

**Fodd bynnag, mae merched a throseddwyr ifanc gogledd Cymru wedi eu carcharu yn Lloegr, sy'n gwneud cynnal a gwella rhwymau teuluol yn anoddach. Felly mae'n bwysicach fyth bod asiantaethau yn gweithio'n effeithiol i gefnogi'r bobl hyn o ogledd Cymru.**

## Hyfforddiant

Wyddoch chi fod rhaglen hyfforddiant 'dedfryd gudd' ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phlant a theuluoedd pobl sydd yn y ddalfa? Caiff y cyrsiau eu darparu gan sefydliadau amrywiol i unigolion neu grwpiau gan hyfforddwyr profiadol. Nod y cyrsiau yw codi ymwybyddiaeth a rhoi trosolwg o'r materion sy'n wynebu teuluoedd carcharorion a darparu strategaethau ac adnoddau i helpu hyfforddwyr gefnogi'r teuluoedd hyn. Ar hyn o bryd cyllideb fach iawn sydd gan awdurdod lleol gogledd Cymru i ddarparu hyn, ar gyfer staff Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i gychwyn. Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch tîm rhanbarthol uchod.

Am ragor o wybodaeth am y gwaith, cysylltwch â: sara.kettle@wrexham.gov.uk/ 01978 292453 neu catherine.pritchard@wrexham.gov.uk / 01978 292444.